

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 6

Key language

Dylwn i
Dylet ti
Dylai e/o/hi
Dylen ni
Dylech chi
Dylen nhw

Dylwn i fod wedi

Dw i'n gweld eisiau

New words

siwrne	journey
dim byd tebyg	nothing like it
dishgled (SW)	a cup of tea
paned (NW)	a cup of tea
arllwys	to pour
unig	lonely
sbel go lew (NW)	quite a while
bwriadu	to intend
ymhellach	further
cynnig	offer
ysgwyddau	shoulders

Main Grammatical Points

Brian is another North Walian - notice the way he pronounces words ending with -au. 'llythrau' become 'llythra'/ 'wynebau' - 'wyneba' (in South Wales you're more likely to hear 'llythre/wynebe'). E in the last syllable also often changes to 'a' - cyfla (chance) amsar.

Some of the words Brian uses are completely different to Agnes'. You'll hear both of them saying 'come on'. Brian says 'Tyd' and Agnes 'Dere' - these are the second person singular/familiar commands ('Dewch' is used in both the North and South when referring to 'chi'). Brian is also quite bad tempered at times - did you notice how he complained about the traffig ...diawledig/uffernol... deemed to be mild swear words in Welsh - literally devilish and hellish.

The characters often talk about what they should do. Do you remember what 'I should say' is?

Dylwn i ddweud	I should say
Ti - Dylet ti ddweud	You should say
Hi/fe - Dylai hi/e ddweud	She/He should say
Ni - Dylen ni ddweud	We should say
Chi - Dylech chi ddweud	You should say
Nhw - Dylen nhw ddweud	They should say

Remember the negative: Ddylwn i ddim dweud... I shouldn't say

The important question forms are

Ddylet ti?	ANSWER	Dylwn/Na ddylwn
Ddylai e neu hi?	ANSWER	Dylwn/Na ddylwn
Ddylech chi?	ANSWER	Dylwn/Na ddylwn

These are things you should and should not do now and in the future.
When talking about the past we say:

Dylwn i fod wedi - I should have
Ddylwn i ddim bod wedi - I should not have

When we miss someone or something, in Welsh we often say 'Dw i'n gweld eisiau rhywbeth' literally I see a want/or a need for something.

Dw i'n gweld eisiau Brian - I miss Brian
Dw i'n gweld ei eisiau e - I miss him
Dw i'n gweld ei heisiau hi - I miss her
Dw i'n gweld dy eisiau di - I miss you
Ro'n i'n gweld dy eisiau di - I missed you

And here's another useful phrase:

Yn falch o weld cefn rhywun
Glad to see the back of someone

Yn falch o weld ei gefn e - glad to see the back of him
Yn falch o weld ei chefn hi - glad to see the back of her
Ro'n i'n falch o weld ei chefn hi - I was glad to see the back of her

If you're completely at a loss and have no idea - dim syniad - you could use the idiom used by Brian:

Sgen i ddim clem - I have no idea - Sgen i ddim clem;
Or in the South: Does dim clem gyda fi/sdim clem 'da fi

Another idiom used by Brian:
Sdim llonydd i gael - there's no peace to be had - sdim llonydd i gael

Ysbyty Brynaber: Episode 16

Dic - Wy ddim yn gweld pam rhaid ichi gymryd y fflac ar ei ran e...
Jenny - Wel, does gen i ddim dewis...achos fi a ddim fo oedd yn dreifio...
Dic - Sdim rhaid ichi 'i amddiffyn e....
Jenny - Dw i ddim yn 'i amddiffyn o....
Dic - Ddweden i bo' chi...
Jenny - Na. Achos fi oedd yn dreifio'r car. O.K.?

It appears that Jenny is not going to change her story. We meet Brian, Agnes' husband. Brian has just returned from one of his frequent overnight visits to Birmingham.

Geirfa

siwrne	journey
dishgled (SW)	a cup of tea
paned (NW)	a cup of tea
dim byd tebyg	nothing like it
arllwys	to pour
unig	lonely
sbel go lew (NW)	quite a while
bwriadu	to intend
ymhellach	further
cynnig	offer
ysgwyddau	shoulders
effeithio	to affect
ar ddihun (SW)	awake
trwblu (SW)	to trouble
trueni	a pity
yn enwedig	especially
gwrthod	to refuse
tanio	to fire
wastad	always
tyst	witness
tecell	kettle
budur (NW)	dirty

Golygfa 1

Agnes - Brian? Ti nôl...
Brian - Ydw
Agnes - Sut siwrnai gest ti o Birmingham?
Brian - Roedd y ffordd allan o Birmingham yn ddiawledig.
Agnes - Beth? Traffig trwm?
Brian - Traffig uffernol. Dw i erioed wedi gweld dim byd tebyg. A rhyw hold-up wedyn...
Agnes - Dishgled? O'n i ar fin 'neud un i'n hunan...
Brian - Paned? Na. Dw i eisiau rhywbeth cryfach...
Agnes - Wisgi?
Brian - Jyst y peth. Wisgi a dŵr...
Agnes - Eistedda di...Wna i arllwys un iti nawr...
Brian - Sut mae Rhodri a Beca?
Agnes - Yn y gwely ers oriau. Es i lan jyst nawr ac roedd y ddau yn cysgu'n sownd...Mae hi'n braf dy gael di nôl gartre...
Brian - Mae hi'n braf iawn bod nôl adra.
Agnes - Ti ddim wedi rhoi cusan i fi chwaith.
Brian - Hei hold on. Rho gyfle i fi. Unrhyw lythyr?
Agnes - Ddim llawer ...Dyma ti dy wisgi a dŵr...
Brian - Diolch.
Agnes - Sut oedd y trade fair?
Brian - O! Ti'n gwbod...Yr un hen wynebaw. Be sy?

Agnes - Ti'n edrych wedi blino...
 Brian - Ydw i?
 Agnes - Rhaid dy fod ti ar ôl gyrru'r holl ffordd o Birmingham.
 Brian - Ges i amser prysur.
 Agnes - Werthest ti lot o geir?
 Brian - Rois i nghardyn i lot o bobol...lechydd da...
 Agnes - Mae hi'n braf dy fod ti nôl, Brian. Bob tro ti'n mynd bant wy'n gweld dy eisiau di.
 Brian - A dw i'n gweld dy eisiau di hefyd, ond mae'n rhaid i fi fynd i ffwrdd hefo 'ngwaith, ti'n gwbod hynny.
 Agnes - Ydw, ydw. Ond ma'r nosweithiau yn timlo mor hir - a mor unig...
 Brian - Wel, paid â phoeni. Sdim triapiau na sioeau eraill am sbel go lew eto...
 Agnes - Ti wedi bod yn smoco neu beth?
 Brian - Naddo. Pam?
 Agnes - Mae dy ddillad di'n drewi o fwg tybaco...
 Brian - Rois i lifft i rhyw salesman at y trênn...Oedd o'n smocio fel stemar...
 Agnes - Fel stemar. Greda i...Pw!
 Brian - Rôn i'n falch o weld 'i gefn o a deud y gwir...
 Agnes - Pwy o'edd e 'te?
 Brian - O...faset ti ddim yn ei nabod o...Jyst rhyw foi...

Golygfa 2

Arwyn - Jenny...? Jenny?
 Jenny - Beth...?
 Arwyn - Rôn i'n meddwl dy fod ti wedi mynd i gysgu am eiliad...
 Jenny - Cysgu? Dyna fasai'n braf...
 Arwyn - Yffach, wy wedi blino...Wy ddim wedi teimlo mor flinedig â hyn ers pan ôn i'n Junior House Doctor yn gweithio'r 72 hour shifts 'na...Ti'n cofio?
 Jenny - Ydw...
 Arwyn - Wrth edrych nôl mae hi'n anodd credu sut des i drwyddi...on'd yw hi?
 Arwyn - Jenny - paid beco: wy wedi addo sorto popeth mas.
 Jenny - Mae'r achos llys mewn llai na phythefnos...
 Arwyn - Wy'n gwybod...
 Arwyn - Edrycha, sorta i bopeth ma's. Reit? Trysta fi...
 Jenny - Beth ti'n bwriadu wneud?
 Arwyn - Ddylen ni ddim gorfod mynd i'r llys.
 Jenny - Ond mae'n rhaid i ni.
 Arwyn - Mae'r polis yn stiwpid. Ond os byddai Wendy Keating yn newid ei stori wy'n siwr fyddai'r achos ddim yn mynd ymhellach.
 Jenny - Ond mae hi wedi rhoi statement i'r polis yn barod.
 Arwyn - Gall hi newid 'i meddwl.
 Jenny - Pam ddylai hi?
 Arwyn - Wy am ofyn iddi.
 Arwyn - Ti ddim yn fy nghredu i?
 Jenny - Ydw. Ond dw i ddim yn credu nei di lwyddo.
 Arwyn - Pam?
 Jenny - Pam ddyle hi newid ei meddwl?
 Arwyn - Wy'n mynd i gynnig ei helpu hi.
 Jenny - Helpu, sut?
 Arwyn - Yn ei gwaith.
 Jenny - Beth? Ei breibio hi?
 Arwyn - Gair bach yn gryf... ond rhywbeth tebyg...
 Jenny - Bydd yn ofalus.
 Arwyn - Paid â beco. Wy'n dweud wrthot ti nawr y bydd yr achos 'ma yn cael 'i dwlu mas yn syth.
 Jenny - Fasai hynny'n fendigedig...Ag yn bwysa mawr oddiar fy ysgwydda fi.....
 Arwyn - Bydd popeth yn iawn. Popeth. Wy'n addo.

Ysbyty Brynaber: Episode 17

With Jenny Saunders' court case only a fortnight away, Arwyn's decided to have a quiet chat with Nurse Wendy Keating to try and persuade her to retract her witness statement.

Agnes is taking her two young children to school. She is having problems with the car. Brian, her husband is not too happy at having to get out of bed to see to the vehicle.

Geirfa

effeithio	to affect
ar ddihun (SW)	awake
trwblu (SW)	to trouble
trueni	a pity
yn enwedig	especially
gwrthod	to refuse
tanio	to fire
gynnau fach (SW)	a little earlier

Golygfa 1

Agnes - Dere mlaen wnei di, car bach? Dere mlaen!
Rhodri - Beth sy'n bod, mam?
Agnes - Y tywydd oer 'ma sy wedi effeithio arno fe.
Agnes - Rhodri...aros di fan hyn i edrych ar ôl dy chwaer fach...
Rhodri - Ble ti'n mynd?
Agnes - Nôl i'r tŷ.
Rhodri - Ody Dadi'n mynd i fficso fe?
Agnes - Wrth gwrs...Fydda i ddim yn hir. O'r gore?

Golygfa 2

Agnes - Brian...? Brian?
Agnes - Ma'n ddrwg 'da fi, cariad... Ond wyt ti ar ddihun...?
Brian - Ydw...pam? Faint o'r gloch ydy hi?
Agnes - Deg munud i naw...
Brian - Be sy...?
Agnes - Mae'n wir ddrwg 'da fi...
Brian - Paid â dweud wrtha i...Dy gar di...?...
Agnes - Ie...Sori...Yn anffodus...
Brian - Eto fyth! O, Mam bach...
Agnes - Fydden i ddim yn dy drwblu di...Ond wy wedi trio ei gychwyn e...ond does dim byd yn digwydd a dwi dipyn bach yn hwyr nawr...
Brian - Pam na wnei di 'i werthu fo...?
Agnes - Mae e'n waeth mewn tywydd o'r...
Brian - Ti eisiau i mi ei werthu fo i ti? Fasai hi'n bleser cael gwneud, wir yr....
Agnes - Brian?
Brian - Beth?
Agnes - Fyddet ti'n fodlon dod i edrych ar yr injian? Byddai hi'n drueni i fi ffono am dacsî? A maen nhw mor hir yn dod, ta beth...A'r gost wedyn ...
Brian - 'Sdim isio ffonio tacsî, siwr iawn.....
Agnes - Wy wedi gwneud hynny cyn hyn. Yn enwedig pan ti bant 'da dy waith. Yr unig beth oedd yn bod ar y car y tro dwetha oedd e'n gwrthod cychwyn oedd y plygie, medde ti...Ti'n cofio?
Brian - Fel dwedais, gwerthu ydy'r ateb...
Agnes - Wy'n hoff ohono fe...
Brian - Mae o'n hen, Agnes...
Agnes - Mae e wedi gwneud yn iawn i fi ar hyd y blynyddoedd...
Brian - Sdim isio bod cweit mor sentimental...
Agnes - Diolch iti. Wy ddim eisiau i Rhodri a Beca fod yn hwyr i'r ysgol...

Brian - Pasia'n jympr 'na draw i fi wnei di...? 'Sdim llonydd i gael oes 'na?
Agnes - Sori...
Brian - Tyrd yn dy flaen 'ta...

Golygfa 3

Brian - Cer i mewn ac agor y bonnet...Reit. Tania'r injian...Beth oedd y broblem? Mae o'n tanio yn syth rwan.
Agnes - Wy ddim yn deall y peth...Od, yntê? Sori, Brian...
Brian - Car temprimental ydi o...
Agnes - Oedd e'n gwrthod cychwyn gynnu fach... Onest...
Brian - Mae o'n iawn rwan...
Agnes - Rhaid bod gyda ti rhyw magic touch...
Brian - Yr unig magic touch o'n i eisiau bora 'ma oedd cael cysgu yn fy ngwely...A rwan dw i wedi deffro ...
Agnes - Diolch, Brei. Sori am dy godi di. Ti'n gariad.

Ysbyty Brynaber: Episode 18

Arwyn Saunders is about to meet up with Nurse Keating.

We learn more about Brian's character as he chats to a female acquaintance on his mobile phone.

Geirfa

wastad	always
tyst	witness
tecell	kettle
budur (NW)	dirty

Golygfa 1

Arwyn - Hello, Wendy...

Wendy - Hi.

Arwyn - Dyma syrpreis. Alla i eistedd fan hyn?

Wendy - Yeah...Course...Take a pew...

Arwyn - Mae hi'n llawn yn y cantin 'ma...

Wendy - Wastad.

Arwyn - A sut mae Dic erbyn hyn?

Wendy - Gartre yn y fflat.

Arwyn - Dwedodd Sister Rees bore 'ma y bydd e nôl yn y gwaith erbyn canol mis nesa'...

Wendy - Yeah, apparently...

Arwyn - Wedi'r cyfan, fracture oedd o, yntê?

Wendy - Still hurts like hell...

Arwyn - Trueni fod achos llys o gwbwl ontefe...?

Wendy - I've had a letter from them.

Arwyn - Beth? I dy alw di fel tyst?

Wendy - Yeah. I'm a witness. Bit nervous, actually.

Arwyn - There's no need to be...

Wendy - Beth ti'n feddwl...?

Arwyn - I'll speak plainly...If you're nervous...My wife Jenny is going through hell...And there no need for any of this...It would be in our interest if the case was dropped.....

Wendy - Is that possible?...

Arwyn - Yes, if you retract your statement I bet you that the whole thing would be chucked out...

Wendy - I'll have to speak with Dic.

Arwyn - I'm sure he'd agree. After all, we've all got to work together in the future...We've all got to get on...haven't we?

Wendy - Yeah. You're right...

Arwyn - And I have done you one favour already haven't I, Wendy? Yr hasl 'na ges ti 'da Sister Agnes Rees...That business with that dirty old man, Percy Edwards...I sorted that one out - didn't I?

Wendy - Yes...you did...

Arwyn - If you retracted your statement, Wendy - this case is dead in the water...Wnei di feddwl am y peth...?

Golygfa 2

Brian - Heia, Linda...pnawn da ichdi...Na, rôn i wedi meddwl cysgu'n hwyr - cael 'lie-in'... ond roedd rhywbeth yn bod ar gar Agnes. Paid â gofyn i fi...Wythnos diwetha y plygia oedd braidd yn fudur...Ond bore 'ma sgen i ddim clem beth oedd yn bod...Clywir sŵn tecell yn berwi...

Brian - Aros funud...Ma'r tecell newydd ferwi...Oedd...Biti fasen ni ddim yn mynd i ffwrdd yn fwy amal...Oedd bod yn Birmingham hefo chdi yn grêt...A hotel dda ...

...paid â siarad yn fudur...Ti byth yn gwbod pwy sy'n gwrando....Ar y land-lein? Wyt ti'n gall? Na, dim ond ar mobile y gwaith fydda i'n ffonio chdi, Linda...Wedi'r cwbl, dw i ddim isio i Agnos wybod amdanon ni, nag oes?

Synopsis

Brian, Agnes Rees' husband has come onto the scene. Brian, a car salesman, explained to his wife that his visit to the trade fair in Birmingham has left him exhausted.

Jenny Saunders is still very worried about the impending court case. Arwyn has suggested that if he has a word with nurse Keating, she might retract her statement and the case might be dropped. He proceeds to have a quiet word with nurse Keating.

We have better insight into Brian's character as he talked to his girlfriend Linda about their recent visit to Birmingham!!!

Test yourself

1. Translate 'I should say' into Welsh
 - a) **Dylwn i ddweud**
 - b) Dylai hi fynd
 - c) Dylen ni ddweud
2. Translate 'I miss Brian' into Welsh
 - a) Dw i'n gweld Brian
 - b) **Dw i'n gweld eisiau Brian**
 - c) Dw i'n mynd ar ôl Brian
3. What is the Welsh verb for 'to effect'
 - a) effaith
 - b) effro
 - c) **effeithio**
4. What's the word in north Wales for 'dirty'
 - a) **budr**
 - b) brwnt
 - c) bys
5. What's the Welsh word for 'further'
 - a) ymlaen
 - b) **ymhellach**
 - c) ymolchi
6. How would you translate the Welsh phrase 'there's no peace to be had'
 - a) does dim byd i gael
 - b) **does dim llonydd i'w gael**
 - c) does dim amser i gael